
PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 3 HYDREF 2016

Yn bresennol:-

Aelodau Etholedig:- Y Cynghorwyr Lesley Day ac Eryl Jones-Williams.

Aelodau Annibynnol:- Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Michael Sol Owen a Mr David Clay.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016 fel rhai cywir.

3. PARATOI AR GYFER ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi adroddiad fu gerbron Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ar yr 20fed o Fedi ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i baratoi ar gyfer anwytho aelodau newydd i'r awdurdod yn sgil etholiadau Mai 2017.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad a chynnig arweiniad ar gyfleoedd hyfforddiant pellach posib' ar y Cod Ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn croesawu'r ffaith bod cynlluniau ar y gweill i baratoi ar gyfer yr etholiadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Ei bod yn hanfodol bwysig bod yr aelodau newydd yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Bod angen meddwl am fformat sy'n cyflwyno prif bwyntiau'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd mewn ffordd hwylus a gafaelgar gan hefyd barchu difrifoldeb y testun.
- Bod angen i'r aelodau newydd gael cyfarwyddyd ar y cychwyn ynglŷn â sut i weithredu dros yr wythnosau cyntaf fel cynghorydd heb dramgwyddo'r Cod Ymddygiad.
- Na chredir bod galw heibio standin yn y Ffair Wybodaeth ar y dyddiau anwytho yn ffordd ddigonol yn ei hun o gyflwyno'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd ac y bydd angen cyflwyniad mwy manwl gan y Swyddog Monitro i ddilyn yn fuan wedyn.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

4. TREFN DATRYS LLEOL MODEL CYNGHORAU CYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro yn nodi:-

- Bod y mater hwn wedi'i gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Safonau, ond bellach bod Unllais Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o lunio trefn genedlaethol i gynghorau cymuned gyda'r Ombwdsmon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion monitro yn rhan o'r broses hefyd.
- Bod y newyddion hwn i'w groesawu a gobeithid y byddai'r drefn newydd yn creu mecanwaith ymarferol a mwy grymus fydd yn galluogi i gynghorau cymuned ddatrys problemau yn haws.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y dylid cysylltu ag Unllais Cymru maes o law i awgrymu bod unrhyw hyfforddiant ar y drefn newydd yn cael ei gynnal yn lleol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2015/16

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2015/16 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad ac yn nodi'r hyn sydd gan yr Ombwdsmon i'w ddweud yn ei lythyr blynyddol ynglŷn â chwynion cod ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd mai canran fechan o'r cwynion sy'n mynd ymhellach a'i bod yn ymddangos mai parch ac uniondeb yw'r materion sy'n codi fwyaf.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod dwy gŵyn arall i law ers paratoi'r adroddiad ac y byddai'n adrodd arnynt i'r cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

CADEIRYDD